

2020 Rhif 232 (Cy. 54)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") sy'n gosod rhwymedigaethau ar wahanol bersonau at ddiben atal mynychder neu ledaeniad haint neu halogiad, diogelu rhagddo, ei reoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd iddo.

Mae rheoliad 2(2) yn mewnosod "Clefyd coronafirws 2019 (COVID-19)" yn Atodlen 1 i Reoliadau 2010 at ddibenion ychwanegu hwn at y rhestr o "Clefydau a Syndromau" y mae dyletswydd ar ymarferwyr meddygol i hysbysu awdurdod lleol perthnasol amdanynt os credir bod clefyd neu syndrom o'r fath ar glaf y maent yn ei wasanaethu. Mae'r ddyletswydd hon yn estyn i hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd, haint neu halogiad mewn corff marw.

Mae rheoliad 2(3) yn mewnosod "Coronafirws y syndrom anadlu aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2)" yn Atodlen 2 i Reoliadau 2010 at ddibenion ychwanegu hwn at y rhestr o "Cyfryngau Achosol" y mae dyletswydd ar weithredwyr labordai diagnostig i hysbysu awdurdod lleol perthnasol amdanynt os ydynt yn darganfod cyfrwng, neu dystiolaeth o gyfrwng o'r fath, mewn sampl ddynol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2020 Rhif 232 (Cy. 54)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Gwnaed 5 Mawrth 2020

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 6 Mawrth 2020

Yn dod i rym 6 Mawrth 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 13, 45C(1), (2) a (3)(a), 45F(2)(a) a (b), 45P(2) a 60A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Yn unol ag adran 45Q(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae Gweinidogion Cymru yn datgan eu bod o'r farn nad yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf honno sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig(2) neu unrhyw

-
- (1) 1984 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Mae swyddogaethau a arferir o dan adrannau 45C(1), (2) a (3)(a), 45F(2)(a) a (b), 45P(2) a 60A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 45T(6) o'r Ddeddf honno sy'n diffinio "the appropriate Minister" fel Gweinidogion Cymru o ran Cymru at ddibenion Rhan 2A o'r Ddeddf honno, ac adran 60A(6) o'r Ddeddf honno sy'n diffinio "the appropriate Minister" fel Gweinidogion Cymru o ran Cymru at ddibenion adran 60A o'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F, 45P a 45T yn Neddf 1984 gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) ("Deddf 2008"), a mewnosodwyd adran 60A yn Neddf 1984 gan adran 130 o Ddeddf 2008 a pharagraff 16 o Atodlen 11 iddi.
- (2) *Gweler* adran 45C(6) o Ddeddf 1984 ar gyfer ystyr "special restriction or requirement".

gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 6 Mawrth 2020.

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (clefydau a syndromau hysbysadwy), ar ôl “Brwselosis” mewnosoder “Clefyd coronafirws 2019 (COVID-19)”.

(3) Yn Atodlen 2 (cyfryngau achosol), ar ôl “Coronafirws y syndrom anadlu aciwt difrifol (SARS)” mewnosoder “Coronafirws y syndrom anadlu aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2)”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
5 Mawrth 2020

(1) O.S. 2010/1546 (Cy. 144).